# Swyddog Prosiect Morol

## Pecyn Gwybodaeth






CYNGOR GWYNEDD

www.gwynedd.llyw.cymru/Swyddi

# Croeso



## Swyddog Prosiect Morol

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â'n tîm morol ac arfordirol.

Mae Gwynedd ac Ynys Môn yn enwog am eu harfordir eithriadol, eu bioamrywiaeth gyfoethog a'u cymunedau cryf. Mae Cyngor Gwynedd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid ledled gogledd-orllewin Cymru i warchod, dathlu a rheoli'r amgylchedd morol arbennig hwn mewn modd cynaliadwy.

Edrychwn ymlaen at benodi Swyddog Prosiect Morol brwdfrydig ac ymroddedig i ymuno â'r tîm.

Mae rhagor o fanylion a y swydd ar gael yng ngweddill y ddogfen yma, ac mae mwy o wybodaeth am y buddion o weithio i'r Cyngor i'w weld ar ein gwefan **www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi**

Yn y cyfamser, pe byddech yn dymuno cael sgwrs anffurfiol ar unrhyw agwedd o'r swydd mae croeso i chi gysylltu gydag Alison Hargrave, Swyddog Ardal Cadwraeth Arbennig ar e-bost: **alisonpalmerhargrave@gwynedd.llyw.cymru**

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

# Swyddog Prosiect Morol

## £30,559 - £32,654 yn ogystal â chyfraniad pensiwn Llywodraeth Leol.

Rydym yn chwilio am Swyddog Prosiectau Morol brwdfrydig, rhagweithiol a hynod gydweithredol i ymuno â'n tîm sy'n ehangu. Wedi'i leoli yng Nghaernarfon, gyda hyblygrwydd i weithio mewn lleoliadau partner gan gynnwys Bangor, Bodorgan a safleoedd eraill yn ôl yr angen. Mae hwn yn gyfle unigryw i rywun sy'n angerddol dros yr amgylchedd morol ac arfordirol ac sy'n ffynnu ar gysylltu pobl, sefydliadau a chymunedau er mwyn cyflawni newid cadarnhaol ymarferol.

## Trosolwg o'r Rôl

Mae'r Swyddog Prosiectau Morol yn rhan o dîm bach, deinamig sy'n weithredu portffolio o brosiectau morol ac arfordirol ledled Gogledd-Orllewin Cymru. Gan fod sawl menter yn rhedeg ar yr un pryd, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cyfrannu ar draws ystod o feysydd gwaith. Yn dibynnu ar eich profiad, eich sgiliau a blaenoriaethau'r prosiectau, efallai y byddwch yn arwain ar feysydd penodol, tra'n cydweithio'n agos gyda chydweithwyr a phartneriaid. Gall cyfrifoldebau esblygu dros amser wrth i gyfleoedd a chyllid newydd godi.

Mae'r rôl hon yn addas i gyfathrebwr naturiol sy'n fedrus wrth adeiladu perthnasau. Byddwch yn mwynhau gweithio gyda phobl, dod â lleisiau amrywiol at ei gilydd a chreu momentwm ar y cyd. Byddwch yn hyderus wrth ymgysylltu â grwpiau cymunedol, pobl ifanc, busnesau lleol, sefydliadau'r trydydd sector a chyrff cyhoeddus.





Elfen allweddol o'r rôl yw sicrhau bod ymgysylltu'n gynhwysol ac yn ystyrlon. Byddwch yn deall pwysigrwydd cyd-gynhyrchu ac yn frwdfrydig dros gefnogi lleisiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i gymryd rhan mewn trafodaethau a dylanwadu ar benderfyniadau, gan sicrhau bod ein gwaith yn adlewyrchu'r cymunedau a'r arfordir y mae'n eu gwasanaethu.

Rydym yn chwilio am rywun sy'n:

- Meddu ar sgiliau cyfathrebu rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Yn hyderus wrth drefnu a chyflwyno digwyddiadau cyhoeddus a gweithgareddau ymgysylltu.
- Yn meddu ar sgiliau creadigol a digidol i ddatblygu deunydd hyrwyddo ac addysgol deniadol.
- Yn gyfforddus wrth reoli cyfryngau cymdeithasol a chynnwys ar-lein.
- Â diddordeb mewn cadwraeth forol ac yn barod i ddatblygu gwybodaeth dechnegol, gan gynnwys technegau arolygu ac adnabod rhywogaethau.
- Yn gallu gweithio'n annibynnol tra'n cyfrannu'n effeithiol fel rhan o dîm cydweithredol.

Mae hon yn rôl amrywiol a gwerth chweil i rywun sy'n cael ei ysgogi gan newid cadarnhaol ymarferol ac sy'n cael ei ysbrydoli gan yr arfordir a'r môr.



**Mae Swyddogion Prosiectau Morol yn gweithio ar draws ystod o brosiectau a meysydd gwaith, er enghraifft:**

**Cydlynu Arfordirol**
Cefnogi datblygiad a chyflwyniad partneriaethau arfordirol yng Ngogledd-Orllewin Cymru. Mae hyn yn cynnwys hwyluso cydweithio rhwng sefydliadau a chymunedau, mapio mentrau lleol, cefnogi trefniadau llywodraethu, nodi blaenoriaethau ar y cyd, a gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar gyfer materion morol ac arfordirol. Mae'r rôl yn cyfrannu at rwydwaith ehangach o Gydlynwyr Arfordirol ledled Cymru, gan gryfhau cysylltiadau â Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru (PMaA Cymru) a Phartneriaeth AGM Cymru.

**Prosiectau Bioamrywiaeth Forol ac Arfordirol**
Cefnogi mentrau monitro a chadwraeth megis arolygon mamaliaid morol, rhaglenni gwyddoniaeth dinasyddion, adfer morwellt a mapio cynefinoedd. Gall hyn gynnwys cydlynu gwirfoddolwyr, darparu hyfforddiant, casglu data a chefnogi cyfranogiad cymunedol mewn gwaith cadwraeth ymarferol.



**Ymgysylltu Cymunedol a Llythrennedd Cefnforol**
Datblygu a chyflwyno mentrau sy'n cryfhau dealltwriaeth o'r amgylchedd morol ac yn ysbrydoli cysylltiad â'r arfordir. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda ysgolion a grwpiau ieuenctid, cyfrannu at adnoddau addysgol fel Pecyn Addysg Tir a Môr, creu cynnwys digidol, a helpu i gyflwyno digwyddiadau cyhoeddus gan gynnwys Gŵyl y Môr.

**Hamdden Cyfrifol ac Ymwybyddiaeth Amgylcheddol**
Hyrwyddo codau morol ac arfer gorau, annog rhyngweithio diogel a pharchus â bywyd gwyllt, a chefnogi mentrau newid ymddygiad sy'n cyfrannu at foroedd gwydn a chymunedau arfordirol ffyniannus.

Fel rhan o'r rôl, byddwch yn gweithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid gan gynnwys ACA Pen Llŷn a'r Sarnau, Cyngor Gwynedd, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Sea Watch Foundation, Grŵp Siarter Awyr Agored Gogledd Cymru, Eryri Actif ac eraill.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno â rhaglen waith sy'n datblygu, gan roi partneriaeth, ymgysylltu cymunedol a chadwraeth ymarferol wrth ei chraidd.



# Swydd Ddisgrifiad

**PWRPAS Y SWYDD**

- Datblygu, monitro a chynorthwyo i weithredu ar brosiectau yn deillio o Gynllun Rheoli'r ACA.
- Trefnu digwyddiadau a chymryd rhan mewn hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth am yr ACA.
- Cynorthwyo i weithredu a diweddaru Cynllun Rheoli'r ACA.
- Sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydan ni yn ei wneud.

**CYFRIFOLDEB AM ADNODDAU (e.e. staff, cyllid, offer)**

- Cyfrifoldeb am unrhyw offer gan gynnwys cyfrifiadur, gliniadur a ffôn a ddarperir ar gyfer dibenion y swydd.
- Gwirfoddolwyr yn achlysurol ac unigolion ar brofiad gwaith.
- Goruchwylio gwaith contractwyr.

**PRIF DDYLETSWYDDAU**

- Gweithio gyda'r Rheolwr Llinell i gydlynu a chysylltu â phartneriaid er mwyn bodloni amcanion a rhaglenni gwaith prosiectau.
- Hyrwyddo a gweithredu prosiectau penodol o fewn y rhaglen waith fel y cytunwyd gan y Rheolwr Llinell.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda strwythurau presennol, arbenigwyr a budd-ddeiliaid i helpu weithredu prosiectau.
- Darparu cefnogaeth weinyddol yn ogystal â hwyluso a threfnu cyfarfodydd.
- Hyrwyddo a chefnogi cyfathrebu rhwng grwpiau rheoli, grwpiau eraill sydd wedi eu haseinio i'r prosiectau, grwpiau presennol, budd-ddeiliaid a'r cyhoedd cyffredinol.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Llinell gyda rheoli cyllidebau a chadw cofnodion ariannol cywir.
- Cadw cofnodion manwl o wariant a datblygiad prosiectau ac adrodd ar allbynnau i'r Rheolwr Llinell.
- Gweithio gyda'r Rheolwr Llinell i ddatblygu strategaeth gyfathrebu ar gyfer y prosiect.

**PRIF DDYLETSWYDDAU (Parhad)**

- Hyrwyddo gwerth yr amgylchedd morol lleol ymysg y gymuned leol, gan gynnwys diweddaru cyfryngau cymdeithasol a'r safle we.
- Adnabod a nodi cyfleoedd ariannu er mwyn galluogi twf parhaol yn y maes gwaith.
- Cyfrifoldeb am hunan ddatblygiad.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau Iechyd a Diogelwch yn y gweithle yn unol â'r cyfrifoldebau a nodir yn Neddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974 a Pholisi Iechyd a Diogelwch y Cyngor.
- Gweithredu o fewn polisïau'r Cyngor yng nghyswllt cyfle cyfartal a chydraddoldeb.
- Cyfrifoldeb am reoli gwybodaeth yn unol â safonau a chanllawiau rheoli gwybodaeth y Cyngor. Sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin mewn cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Diogelu Data
- Ymrwymiad i leihau allyriadau carbon y Cyngor yn unol â'r Cynllun Rheoli Carbon ac i annog eraill i weithredu'n gadarnhaol tuag at leihau ôl-troed carbon y Cyngor.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswydd arall cyfatebol a rhesymol sy'n cyd-fynd â lefel cyflog a lefel cyfrifoldeb y swydd.
- Cyfrifoldeb i adrodd ar bryder neu amheuaeth bod plentyn neu oedolyn bregus yn cael ei gamdrin.

**AMGYLCHIADAU ARBENNIG**

- Yr angen i weithio oriau anghymdeithasol o bryd i'w gilydd.

**Dim ond amlinelliad o ddyletswyddau'r swydd a ddangosir uchod, a hynny er mwyn rhoi syniad o'r lefel cyfrifoldeb sydd ynghlwm â hi. Nid yw'r swydd ddisgrifiad hon yn fanwl gynhwysfawr, ac fe all dyletswyddau'r swydd newid o bryd i'w gilydd heb newid ei natur sylfaenol a'r lefel cyfrifoldeb.**



# Manylion Person

**NODWEDDDION PERSONOL**
**Hanfodol:**
Personoliaeth groesawgar a gallu cyfathrebu dros ffôn mewn modd dymunol.
Y gallu i ganolbwyntio ar gywirdeb a rhoi sylw i fanylion.
Gonestrwydd, hunan hyder, pendantrwydd a hyblygrwydd.
Y gallu i dderbyn cyfrifoldeb ac i gyfathrebu'n effeithiol.
Y gallu i weithio dan bwysau ac fel rhan o dîm.
Diddordeb a brwdfrydedd am faterion amgylcheddol, arforol ac arfordirol.
Meddu ar drwydded yrru gymwys a defnydd car.

**CYMWYSTERAU A HYFFORDDIANT PERTHNASOL**
**Hanfodol:**
Safon addysg dda hyd at lefel A neu uwch (gan gynnwys gwyddoniaeth) neu brofiad cyfwerth a pherthnasol mewn amgylchedd morol neu arfordirol.

**Dymunol:**
Gradd neu gymhwyster cyfwerth mewn pwnc sy'n berthnasol i anghenion y swydd e.e. Bioleg Forol ac Ecoleg.
Cymhwyster neu hyfforddiant mewn prosesu geiriau / cronfeydd data / taenlenni.



**PROFIAD PERTHNASOL**

**Hanfodol:**

Profiad o gyfathrebu gydag amrywiaeth eang o unigolion a grwpiau.
Profiad o baratoi a gweithredu prosiectau ymarferol mewn partneriaeth ag eraill.
Profiad o hwyluso a threfnu cydweithio effeithiol rhwng partneriaethau sy'n rhannu diddordebau.
Profiad o weithio mewn amgylchedd morol neu arfordirol.

**Dymunol:**

Profiad o weithio at ddyddiadau caeth ac o dan bwysau.
Cefndir o fod yn weithiwr tîm a gweithio'n unigol ar dasgau heb oruchwyliaeth.
Profiad o dargedu grantiau gan lwybrau ariannol amrywiol.
Profiad o baratoi adroddiadau.

**SGILIAU A GWYBODAETH ARBENIGOL**

**Hanfodol:**

Ymwybyddiaeth o faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n berthnasol i amgylchedd morol ac arfordirol yr ardal.
Gwybodaeth am yr ardal prosiect
Sgiliau trefnu da a chynnig cymorth gweinyddol.
Sgiliau cyfathrebu cryf – ysgrifenedig ac ar lafar.
Dealltwriaeth o becynnau meddalwedd cyfrifiadur Windows.

**Dymunol:**

Ymwybyddiaeth o ddulliau cyfathrebu a dehongli.
Gwybodaeth am bolisïau rhanbarthol a chenedlaethol sy'n ymdrin â chadwraeth natur arforol.
Y gallu i ymdrin â phobl o wahanol oedrannau a chefndiroedd.



# Anghenion Ieithyddol

**Gwrando a Siarad - Lefel Uwch**
Gallu cyflwyno pob agwedd o'r swydd yn llafar, a bod yn rhugl mewn Cymraeg a Saesneg.

**Darllen a Deall - Lefel Uwch**
Gallu defnyddio a dehongli unrhyw wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau er mwyn cyflawni pob agwedd o'r swydd.

**Ysgrifennu - Lefel Uwch**
Gallu cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig mewn modd gwbl hyderus gan ddefnyddio'r iaith ac arddull priodol ar gyfer y pwnc a'r gynulleidfa.

# Proses ymgeisio

I  ymgeisio am y swydd, ewch i **www.gwynedd.llyw.cymru/Swyddi**

Gofynnwn i chi adolygu'r Swydd Ddisgrifiad a Manylion Person, a chwblhau eich cais yn unol â'r gofynion.

Ceisiadau i'w cyflwyno erbyn hanner dydd ar ddydd Llun, 8 Mehefin 2026, gyda chyfweliadau yn cael eu cynnal ar ddyddiad i'w gadarnhau wedi hynny.

Cysylltwch ag Alison Hargrave, Swyddog Ardal Cadwraeth Arbennig ar e-bost: **alisonpalmerhargrave@gwynedd.llyw.cymru** os am sgwrs i drafod y swydd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r broses, cysylltwch â **DesgAdnoddauDynol@gwynedd.llyw.cymru**

Mae'r prosiect hwn wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Lefydd Lleol ar gyfer Natur: Cronfa Her Cydlynydd Arfordirol, a weithredir gan CGGC.